# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS MEHEFIN 2021:**
Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis nos Fercher 9fed o Fehefin, 2021, am 7 y.h. Estynwyd croeso gan y Cadeirydd i'r aelodau. Cadwyd rheolau pellter a glendid.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Olwen Gwilym, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Claudia O'Donnell, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen,
***Ymddiheuriadau:*** Gwilym Evans, Kim Jones, Llinos Haf Pritchard. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 ETHOL CADEIRYDD ac IS GADEIRYDD:**
Gyda blwyddyn yn unig ar ôl o dymor y Cyngor presennol, a'r Clerc yn y Gadair, cynigiwyd fod y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd presennol; Rhys ap Gwilym a Bethan Holding yn parhau yn eu safleoedd am flwyddyn arall. Cynnig ac eilio: KMJ / HLJ.

**4 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher 12fed o Fai, 2021 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: KJ / IO.

**5 MATERION YN CODI O'R COFNODION:** .
***1. Cae Chwarae Ger y Llyn:***
Adroddwyd gan y Clerc iddo dderbyn dyddiad ar gyfer gosod y fframiau coed newydd. Mae'r cwmni wedi clustnodi 4 diwrnod i gwblhau'r gwaith gan ddechrau ar yr 28ain o Fehefin.
***2. Cae Chwarae Dôl Elidir:***
Y giat heb ei gosod eto. (Yn ôl KMJ bydd gwaith ar y cae hefyd).
***3. Cae Pob Tywydd UEFA:***
Dim pellach i'w adrodd am brisiau.
***4. Yswiriant y Cyngor:***
Nodwyd fod yr yswiriant wedi ei adnewyddu gyda cwmni Zurich, gyda'r pris yn sefydlog am 5 mlynedd.
***5. Enw'r Mynydd (Yr Wyddfa ac Eryri):***
Cafwyd ymateb gan brif weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) i'r llythyr a anfonwyd yn gofyn i'r awdurdod roi'r gorau i ddefnyddio enwau Saesneg Yr Wyddfa ac Eryri. Dywedodd fod y mater yn cael ei drafod ac y bydd adroddiad gweithgor yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod maes o law.
Awgrymwyd fod yr un llythyr yn cael ei anfon at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddo yntau ymatal rhag defnyddio'r enwau Sesneg.
***6. Cau Strydoedd:***
Mae Stryd Goodman yn rhannol wedi ei chau, ond chafwyd dim rhybudd.

**6 MATERION ERAILL**
***1. Gwesty Dolbadarn:***
Yn dilyn y sibrydion am newid defnydd Gwesty Dolbadarn a chyfweliad ar y radio yn ogystal a thrafod ar y cyfryngau cymdeithasol roedd TT wedi gofyn a oedd unrhyw wybodaeth swyddogol neu gais cynllunio wedi dod i law. Yr ateb oedd nad oedd unrhyw wybodaeth wedi ei gyflwyno.
Yn ôl HLJ, a oedd a chysylltiad a'r perchennog newydd, roedd yr adeilad yn dal yn Westy, ac nad oedd cartrefu pobl di-gartref mewn partneriaeth a CG yn golygu 'newid defnydd'. Roedd hi o'r farn nad oedd angen cais cynllunio tra yr oedd eraill o'r cynghorwyr yn mynegi barn wahanol. Yn amlwg mae'r mater o gryn bwys, yn arbennig i bentrefwyr sy'n byw gerllaw. Cafwyd trafodaeth fod angen bod yn ofalus wrth wneud unrhyw sylw cyhoeddus ar faterion fel hyn (yn enwedig mewn materion yn ymwneud a chynllunio) gan fod y canfyddiad cyhoedduss yn aml yn un o'r Cyngor Cymuned yn mynegi barn, pan nad oedd hynny yn wir, a hynny er fod y sawl a gai ei holi wedi mynegi'n glir mai ei farn bersonol ef neu hi a fynegwyd.

***2. Sbwriel:***
Yn dilyn cais gan KMJ cafwyd trafodaeth am sbwriel o gwmpas Cae'r Ddôl, Y Ganolfan a Cae UEFA. Roedd ef am weld gosod bin sbwriel ychwanegol (ac wedi cael addewid o un gan CG) gan ei fod o'r farn y byddai'n cael ei ddefnyddio gan bobl ifanc lleol ond byddai'n rhaid i'r Cyngor hwn ei wagio. Ond yn ôl aelodau o bwyllgor Y Ganolfan roedd hynny wedi methu yn y gorffennol gan ychwanegu fod pobl leol yn manteisio ar y bin i gael gwared a sbwriel domestig. Penderfynwyd am y tro i adael pethau fel y maent.

***3. Cofeb y Chwarelwyr***
Adroddwyd i'r Clerc drafod y ddau gynllun a ddewiswyd sy'n cael ei ffafrio gyda'r cynllunwyr. Cafwyd bras amcan o bris gan un o'r cynllunwyr ac mae'r llall yn edrych ar hynny. Mae'r pris yn uwch na'r hyn ddisgwylid, ond os am gerflun neu waith celf trawiadol yna bydd yn rhaid ystyried pris sylweddol. Ystyriwyd sut i fynd ati i chwilio am arian a thrafodwyd nifer o syniadau. Penderfynwyd nes y daw ffigyrau gweddol bendant na ellir dod i benderfyniad, yn y cyfamser mae angen pwyso ar CG i ddangos naill ffordd neu'r llall a ydi'r lleoliad yn dderbyniol, ynghyd a thrafod efo LleChi i weld a ellir cael rhywfaint o arian i ddatblygu'r syniad.

***4. Coed Doctor:***
*Mae'r giat yn dal heb ei thrwsio.*

**7 GOHEBIAETH:**

***1. CG: Is Grŵp Digwyddiadau Llanberis:***
Llythyr yn nodi y bu trafod rhwng un o swyddogion Engie, perchennog Mynydd Gwefru a CG ynglyn a'r safle ar ôl dymchwel yr adeilad. Fel rhan o'r trafod soniwyd am y posibilrwydd o ddefnyddio'r safle i gynnal digwyddiadau. O blaid y syniad rhestrwyd fod yno drydan a dŵr, a'i fod yn safle gwastad. Byddai'r cwmni yn cynnal a cadw'r safle ac yn rhyddhau Cae'r Ddôl i ddefnydd lleol. Maes parcio yno hefyd a dim rhannu'r tir efo porwyr a defaid. Dywedwyd y gallai'r gymuned fod a llais yn y rheoli a byddai'n ysgafnhau'r pwysau ar Barc Padarn. Mae anfanteision hefyd wrth gwrs: agoatrwydd trigfannau lleol. Mynegwyd siom fod perchennog yr adeilad wedi dechrau trafod gyda CG cyn y gymuned leol, ac nad oedd yn ymddangos y gallai'r gymuned yn lleol ac yn ehangach fanteisio yn economaid pe bai'r cwmni'n cadw'r maes parcio. Cytunwyd i anfon gair at CG.

***2. National Grid:***
Llythyr oddi wrth Swyddog Tir y cwmni yn holi am ganiatad i wneud twll bychan, lled rhaw i'w lenwi yn syth wedyn, i chwilio am wifrau a phibell tanddaearol yn y cae chwarae Ger y Llyn. Roedd y Clerc wedi rhoi caniatad, gyda'r amod ei fod yn cael gwybod lle byddai'r twll a pryd yr oedd bwriad i wneud y gwaith.

***3.*** - Rhannwyd nifer o gylchlythyron trwy ebost yn ystod y mis

**9 MATERION ARIANNOL:**

**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Fai, 2021**
**Cyfrif Cyfredol**: £29,180.17 **Cyfrif Cadw**: £5,366.06
**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:** **CYFANSWM…£265.00**
**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/04/2020 a 28/05/2021:** **CYFANSWM...£16,475.00**
Cynnig ac eilio: BH / IO.

**12. ADRODDIADAU ALLANOL:**

***1. APCE - Cyfarfod Cynghorau Gogledd y Parc:***
Ar y We y cynhaliwyd y cyfarfod hwn eleni. Felly roedd yn llawer mwy ffurfiol gyda nifer o gyflwyniadau a fawr o gyfle i holi o ddifri. Effaith y pandemig ar waith yr Awdurdod gafodd y sylw mwyaf, ond oherwydd y pwysau lleol o du ymwelwyr a ddaeth yn sgil codi'r cyfyngiadau'r haf diwethaf mae llawer mwy o sylw'n cael ei roi bellach i effaith ymwelwyr ar y cymunedau a'r trigolion.

**13 CYFARFOD NESAF:**
Dyddiad y cyfarfod nesaf. Nos Fercher, 14eg Gorffennaf, 2021 am 7yh.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**

Cadeirydd: Rhys ap Gwilym

Clerc: Dei Tomos Dyddiad 14 Gorffennaf, 2021.